RHONDDA CYNON TAF

*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*

# *RHONDDA CYNON TAF*

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm Clydach, CF40 2XX**
**Dydd Mawrth, 24ain Medi, 2019 am 10.30 am**

**Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol (Rhif ffôn. 01443 424110)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Gwener, 20 Medi 2019. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Nodwch:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. CYNLLUN CORFFORAETHOL Y CYNGOR – BLAENORIAETHAU BUDDSODDI**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n egluro'r sefyllfa o ran adnoddau untro mae modd manteisio arnyn nhw yn sgil adolygu cronfeydd wrth gefn y Cyngor sydd wedi'u clustnodi ar ôl cwblhau'r broses archwilio o ran Datganiad o Gyfrifon y Cyngor 2018/19.

**(Tudalennau 5 - 14)**

3. **ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR – 30 MEHEFIN 2019 (CHWARTER 1)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n rhoi crynodeb i'r Cynghorwyr am gyflawniad y Cyngor dros dri mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 30 Mehefin 2019), mewn perthynas â materion ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

**(Tudalennau 15 - 38)**

4. **CYLLID GRANT CYFALAF YCHWANEGOL - CYNNIG GOFAL PLANT**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n rhoi gwybod i Gynghorwyr am y grantiau cyfalaf ychwanegol sydd wedi'u derbyn i gefnogi'r gwaith o ddarparu Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru yn Rhondda Cynon Taf.

**(Tudalennau 39 - 44)**

5. **CYFLAWNIAD YSGOLION 2018/19**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sy'n rhoi adborth i Gynghorwyr am gyflawniad ysgolion ledled Rhondda Cynon Taf yn ystod 2018/19.

**(Tudalennau 45 - 54)**

6. **PARTNERIAETH Â CHOLEG YR IWERYDD (COLEGAU UNEDIG Y BYD)**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n rhoi diweddariad i'r Cynghorwyr ynglŷn â phartneriaeth sy'n gweithio gyda Choleg yr Iwerydd (Colegau Unedig y Byd) mewn perthynas â lleoliad preswyl posibl ar ôl 16 oed i blant sy’n derbyn gofal yn Rhondda Cynon Taf.

**(Tudalennau 55 - 62)**

7. **GWEITHDREFNAU RHOI SYLWADAU, CANMOL A CHWYNO - ADRODDIAD BLYNYDDOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi crynodeb i'r Cabinet o drefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefnau cwyno Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

**(Tudalennau 63 - 84)**

8. **CYNLLUN ADBORTH CWSMERIAID - RHOI SYLWADAU, CANMOL A CHWYNO - ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018/19**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol cyntaf sy'n ymwneud â gweithrediad ac effeithiolrwydd Cynllun Adborth Cwsmeriaid corfforaethol ('CFS') y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

**(Tudalennau 85 - 98)**

**9. FFORDD OSGOI LLANHARAN**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfadran Materion Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf am ddatblygu a chynnal y cynllun trafnidiaeth sylweddol: Ffordd Osgoi Llanharan, gan gynnwys manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus.

**(Tudalennau 99 - 110)**

**10. CANLLAWIAU POLISI NEWYDD AR BERTHNASEDD EUOGFARNAU WRTH BENDERFYNU AR ADDASRWYDD YMGEISWYR A DEILIAID TRWYDDEDAU AR GYFER CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU LLOGI PREIFAT**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned sy'n ceisio cymeradwyaeth er mwyn rhoi'r polisi newydd, canllawiau ar berthnasedd euogfarnau wrth benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau ar gyfer Cerbydau Hacni a Cherbydau Llogi Preifat, ar waith.

**(Tudalennau 111 - 126)**

**11. ARGYMHELLION GWEITHGORAU CRAFFU: DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL – DATBLYGU SEILWAITH I GEFNOGI PERCHNOGAETH CERBYDAU CARBON ISEL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu sy'n cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'r Cabinet mewn perthynas â Datblygu Seilwaith i Gefnogi Perchnogaeth Cerbydau Carbon Isel.

**(Tudalennau 127 - 140)**

**12. MATERION BRYS**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth  - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:**

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd  M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon